**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Jenny Rathbone, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

10 Awst 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 28 Gorffennaf, ynghylch eich bwriad i lansio ymchwiliad byr ar Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Cymru 2023. Rwy'n ddiolchgar bod y Pwyllgor yn parhau i roi sylw i'r mater pwysig hwn. Roedd yr ymchwiliadau blaenorol yn fuddiol dros ben wrth inni ddrafftio'r strategaeth ar gyfer ymgynghoriad.

Mae'r strategaeth ddrafft wedi'i datblygu ar sail tystiolaeth, yn benodol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ac ar ôl holi 3,300 o bobl sydd â phrofiad perthnasol a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys 1,402 o blant a phobl ifanc. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 11 Medi, ac rydym yn rhagweld nifer iach o ymatebion.

Er y byddaf yn croesawu canfyddiadau'r Pwyllgor yn fawr, caiff y strategaeth ei hystyried gan y Cabinet ym mis Tachwedd. Byddai o fudd mawr, felly, pe gallai'r Pwyllgor rannu canfyddiadau eich ymchwiliad erbyn 27 Hydref fan bellaf, er mwyn caniatáu amser i'm swyddogion roi ystyriaeth ddyledus iddynt wrth gwblhau'r strategaeth yn derfynol.

Rwy'n mawr obeithio bod y dyddiad hwn yn realistig i'r Pwyllgor. Rwyf am eich sicrhau chi a'r pwyllgor y bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ôl y dyddiad hwn yn dal i gael ei hystyried yng nghyd-destun ehangach ein gwaith ar dlodi plant. Er enghraifft, rwy'n nodi bod rhai o'r meysydd rydych yn bwriadu ymchwilio iddynt yn ymwneud ag asesu cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi plant ac effeithiolrwydd ymyriadau i fynd i'r afael â thlodi plant o fewn grwpiau penodol. Fel y nodir yn y strategaeth ddrafft, byddwn yn ceisio cyngor annibynnol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar ddangosyddion addas a fframwaith i fonitro ac adrodd ar gynnydd. Bydd eich canfyddiadau chi hefyd yn cyfrannu at y gwaith hwnnw yn ystod yr hydref.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip